# FFYNNON TAF A GWAELOD

Gohebydd Lleol: E June Huws

PRIODAS DDA

Priodwyd Miss Catherine Beech o Ffynnon Taf a Mr Stephen Phillips o Aberdâr yng nghapel Bethlehem Gwaelod-Y-Garth Sadwrn Mawrth 6ed. Mae Catherine yn gweithio mewn swyddfa cyfreithwyr yn Ffynnon Taf, ac mae'n athrawes plant bach yn Ysgol Sul Bethlehem. Dymunwn bob hapusrwydd iddynt yn eu bywyd a'u cartref newydd ger Llantrisant.

LLONGYFARCHIADAU

Estynnwn ein llongyfarchiadau i Dawn a Stuart Thomas ar enedigaeth eu plentyn cyntaf, Huw David. Mae Dawn yn adnabyddus fel athrawes yn yr Ysgol Sul ac hefyd fel cynorthwywraig gyda'r babanod yn Ysgol Gwaelod-Y-Garth.

LLWYDDIANT I'R YSGOL

Mae'n bleser cael cyhoeddi fod Côr dan 12 oed (Grŵp 3) Ysgol Gwaelod-Y-Garth, o dan arweinyddiaeth Mrs Marion Evans a gyda chyfeiliant Miss Rhian Mair Lewis, wedi ennill yn Eisteddfod Sir yr Urdd. Dymunwn bob lwc iddynt ym Merthyr ym mis Mai.

YSGOL FEITHRIN FFYNNON TAF

Cynhaliwyd ffair Wanwyn yn neuadd Ffynnon Taf ar 3ydd Ebrill. Yr oedd yn noson lwyddiannus a chasglwyd dros gan punt i gronfa'r feithrinfa.

Ar Fai 10ed bydd cerddwyr brwd yn cychwyn ar daith noddedig o ryw ddeng milltir o gwmpas mynydd y Garth. Os ydych yn awyddus i ymuno neu noddi cysylltwch ag Angharad Jones neu Pat Taylor.

Achlysur mwy hamddenol fydd noson win a chaws yr Ysgol Feithrin ar y 6ed Fehefin yn Neuadd y Gymuned, Ffynnon Taf. Dewch yn llu.

NOSON GYDA'R HENNESSEYS

Er taw noson Saesneg oedd hon, yr oedd yn Gymreigaidd iawn ei naws. Cynhaliwyd y noson yn neuadd Gwaelod-Y-Garth Sadwrn 28, Mawrth. Trefnwyd gan bwyllgor y neuadd, ond Sandy Rosser yn bennaf.

# YR EFAIL ISAF

GWELLHAD

Braf oedd clywed fod Mrs Annie Powell, gynt o Nant y Felin, yr Efail Isaf yn well ar ôl bod am driniaeth yn Ysbyty Dewi Sant, Pontypridd. Tan yn ddiweddar roedd Mrs Powell yn un o ffyddloniaid Y Tabernacl a dymunwn iddi adferiad llwyr gan obeithio ei gweld yn ôl yn y capel eto pan ddaw'r tywydd braf.

PROFEDIGAETH

Syfrdanwyd y pentrefwyr Nos Sul, Ebrill 5ed pan glywyd am farwolaeth sydyn Mr Brian Warden, 25 Heol Dowlais. Brodor o bentref Sain Ffagan oedd Brian ac roedd yn werthwr ceir gyda chwmni ceir yn Southgate, Llantrisant. Cydymdeimlwn â Barbara ei weddw a'r ddau fab Simon a Richard.

SWYDD NEWYDD

Tan yn ddiweddar bu Paul Gapper, 54 Heol Dowlais yn teithio ac yn gweld tipyn go lew o'r byd fel aelod o'r fyddin, ond erbyn hyn mae wedi bwrw angor gartre gyda'i rieni yn Heol Dowlais ac wedi cael swydd newydd yn gynrychiolydd i Gwmni sy'n gwerthu systemau Larwm i ddiogelu cartrefi.

Mae Paul yn gyn-ddysgybl o Ysgol Gymraeg Garth Olwg ac Ysgol Gyfun Llanhari.

CYMORTH CRISTNOGOL

Cofiwch am Noson fawr Cymorth Cristnogol yn y tabernacl ar Nos Fercher, Mai 13. Bydd cyfle i roi a phrynu ar y stondinau arferol ac hefyd cewch gyfle i ganu unawd, adrodd neu

ar ddiwedd y noson.

Mae sôn hefyd am dipyn o "raligamps" a chwaraeon ym Mharc y Pentre' yn ystod y noson. Mae'r si ar led fod un o'r diaconiaid wedi bod yn chwilio'r atig am ei esgidiau pêl-droed a'i 'shorts' ac amryw o wragedd Pentyrch yn loncian o amgylch gardd Eiry Rochford bob bore.

# LLANILLTUD FAERDRE

Gohebydd Lleol:
Linda Sidgwick (204959)

LLONGYFARCHIADAU

i Julian Hale Malborough Close am lwyddo yn ei arholiadau fel cyfrifydd.

LLONGYFARCHIADAU

hefyd i ddau o ddisgyblion Gartholwg sef Alun Jones "Langham", Crown Hill a Dawn Williams, Tudor Way. Bu'r ddau'n llwyddiannus yn ysgrifennu storïau ar gyfer cystadleuaeth Gwobr goffa Margaret Rosser yn yr ysgol.

CANU'N IACH

Blin gennym ffarwelio â dau deulu arall o Crown Hill. Mae Alun a Debbie Thomas yn symud nôl i'r gorllewin a Rhona a Mike Davies a'r plant Amy, Nia, Lowri a James yn symud i Gaerdydd dros dro. Mae'r Defisiaid yn gobeithio y bydd eu tŷ newydd yn Meadow Farm yn barod cyn bo hir. Pob hapusrwydd i'r ddau deulu yn eu cartrefi newydd.

YR YSGOL FEITHRIN

Bydd 'taith' noddedig ar Fai y chweched pan fydd y plant bach yn cerdded i godi arian i'w hysgol. Siwrne dda!

SWYDD NEWYDD

Llongyfarchiadau i Dave Sidgwick, St Anne's Drive ar gael ei benodi'n Wyddonydd Datblygu yn Morganite Carbon